# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 14 Hydref 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Catherine Hughes
Philip Roberts
Nia Jones
Tesni Wyn Jones
Dafydd Ll Williams
Wyn Davies
Einir Lewis
Rhian Holt - clerc

Daeth **Angela Louise Moore** i'r cyfarfod heno i weld sut mae y cyngor yn gweithredu.

1. **Ymddiheuriadau** – Doedd neb yn ymddiheuro

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Cadarnhawyd cofnodion 23 Medi 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac eilwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**
Nid oedd ymatebion i ohebiaeth.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Medi 2021 i 3 Hydref 2021 yn gywir yn y swm o £4631.94.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.80 | Siec rhif 200636 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £27.80 | Siec rhif 200637 |
| P J Duncan – Darparu y gliniadur ar gyfer clarc newydd. | £30.00 | Siec rhif 200638 |

Derbyniwyd derbyneb gan Tŷ Gobaith.

**5. Materion Cynllunio**
Nid oedd cais cynllunio i'w drafod heno.

**6. Datgan Diddordeb**
Doedd neb yn datgan diddordeb.

**7. Materion er Gwybodaeth**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

**8. Unrhyw fater arall**

**Defibrillator**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwybyddu trigolion Boduan a Cheidio am fanylion y peiriant defibrillator newydd. Penderfynwyd trafod hyn yn y cyfarfod nesaf oherwydd bod amser yn brin mewn cyfarfod Zoom.
Roedd y clarc wedi derbyn ebost gan Tomos Hughes, Swyddog Cymorth Pads Gogledd Cymru gyda linc i gofrestru y peiriannau defibrillator. Penderfynwyd cofrestru yn y dyfodol agos.

**Torri gwellt ochrau lôn**
Mae y toriad diwethaf yn dipyn gwell na'r un cyntaf, gofynwyd i'r clarc yrru llythyr i'r Adran Priffyrdd i ddiolch.

**Twnti, Rhydyclafdy**
Cyn diwedd y cyfarfod cafwyd trafodaeth ynglŷn â mynd yn ôl i gynnal cyfarfod yn Twnti, Rhydyclafdy. Os oes unrhyw un **ddim** yn hapus i wneud hyn, bydd yn bosibl i'r unigolyn ymuno drwy gofrwng Zoom.
Penderfynwyd y dylid talu £20 am ddefnydd o'r ystafell yn Twnti o hyn ymlaen oherwydd bod y perchennog wedi bod yn dda iawn i'r ardal yn ystod cyfnod clo covid 19.

**Lôn wedi cau ger Cefn Leisiog**
Cafwyd cwyn yn y cyfarfod nad oedd digon o gyhoeddusrwydd wedi ei roi allan i drigolion cyfagos na'r cwmniau bws i ddweud bod rhan o'r lôn wedi cau. Yn ôl pob sôn roedd TTRO (TEMPORARY TRAFFIC REGULATION ORDER) i'w yrru at drigolion cyfagos a pherthnasol yn hysbysebu hyn.
Gofynwyd i'r clarc yrru llythyr i'r Adran Priffyrdd yn datgan anfodlonrwydd trigolion yr ardal nad oeddant wedi cael rhybydd fod y gwaith yma yn mynd ymlaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Tachwedd 2021 yn Nhafarn Twnti am 7:30 yr hwyr.